**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

# Lles Anifeiliaid a Hylendid Cig

Mai 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8185
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: ruraldev.comm@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

# Lles Anifeiliaid a Hylendid Cig

Mai 2010

## Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

Penodir yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried materion sy'n effeithio ar Ddatblygu Gwledig ac adrodd yn ôl ar y materion hynny. Mae'n is-bwyllgor o'r Pwyllgor Cynaliadwyedd a'i gylch gwaith yw craffu ar feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru y mae'r is-bwyllgor yn credu sy'n effeithio ar ddatblygu gwledig.

### Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2007 fel Is-bwyllgor i un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig yn Rheol Sefydlog 12. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org

### Aelodau'r Pwyllgor

| *Aelod Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Mike German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Joyce Watson | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Brynle Williams | Plaid Geidwadol Cymru | Gogledd Cymru |

# Cynnwys

**Argymhellion y Pwyllgor** ........ **5**

**1. Rhagymadrodd a'r Cefndir** ........ **7**

Man Cychwyn yr Ymchwiliad ........ 7

Cylch Gorchwyl ........ 7

**2. Crynodeb o'r prif faterion** ........ **9**

Y Cefndir Deddfwriaethol ........ 9

Rôl Milfeddygon Swyddogol ........ 10

Archwiliadau cyn Lladd ........ 10

Annibyniaeth ........ 11

Contractau ........ 11

Mesurau Rheoli TSE / SRM ........ 13

Polisi Da Byw Glân ........ 15

Swyddogion Lles Anifeiliaid ........ 17

Hunanreoleiddio ........ 17

Cyllido a Chymhorthdal ........ 21

Datganoli ........ 26

**Tystion** ........ **28**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **29**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, fel y maent yn ymddangos yn yr adroddiad. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Cred y Pwyllgor y dylid edrych eto ar y model cyflogi milfeddygon ar gontract, ac ystyried y posibilrwydd o newid i drefn lle caiff milfeddygon eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr FSA. Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi pwysau ar yr FSA i edrych eto ar y mater hwn drwy gyfrwng adolygiad annibynnol i ystyried a fyddai modelau amgen yn darparu'r arbenigedd a'r profiad sy'n angenrheidiol ymysg milfeddygon yn well. **(Tudalen13)**

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn annog yr FSA i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau mwy o effeithlonrwydd yn y ffordd y caiff y mesurau rheoli SRM a TSE eu gorfodi. Dylai hyn gynnwys dysgu am sut y caiff y mesurau rheoli eu rhoi ar waith yn aelod wladwriaethau eraill yr UE, yn cynnwys dulliau amgen o dynnu madruddyn y cefn. **(Tudalen 15)**

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu effaith Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ar lendid yr anifeiliaid a gyflwynir i gael eu lladd. Os yw hynny'n angenrheidiol a phriodol, dylai'r rheoliadau gael eu diwygio i roi mwy o bwerau i filfeddygon swyddogol ac archwilwyr hylendid cig i atal anifeiliaid budron rhag cael eu cyflwyno i gael eu lladd. **(Tudalen 16)**

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddeddfwriaeth sy'n dod â'r Rheoliad i rym yng Nghymru yn dangos yn glir beth yw rôl swyddogion lles anifeiliaid a milfeddygon swyddogol, y naill a'r llall. Mae'r Pwyllgor yn galw hefyd ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori'n llawn â'r diwydiant cig coch ac eraill sydd â buddiant yn y maes cyn dod â'r ddeddfwriaeth gerbron.
Hunanreoleiddio **(Tudalen 17)**

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp adolygu, yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r diwydiant cig, i ystyried pa mor effeithiol y mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn cael ei gorfodi yng Nghymru. Dylai'r adolygiad ystyried pa ddiwygiadau sy'n bosibl, o fewn fframwaith deddfwriaethol presennol yr UE, i sicrhau bod y safonau lles anifeiliaid a hylendid cig uchaf yn cael eu gwireddu yn y ffordd fwy effeithlon. **(Tudalen 20)**

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pob cyfrwng sydd ar gael iddi i atal yr FSA rhag rhoi trefn adennill costau'n llawn ar waith a dileu ei chymhorthdal i'r diwydiant nes bydd mecanwaith amgen i roi cymhorthdal tuag at gost mesurau rheoli wedi cael ei sefydlu. **(Tudalen 25)**

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu mecanwaith i ddarparu cymhorthdal i'r diwydiant a fydd yn diogelu dyfodol lladd-dai bach Cymru, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu cymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint sy'n gwasanaethu marchnadoedd lleol. **(Tudalen 25)**

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatganoli'r cyfrifoldeb am orfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid a hylendid cig mewn perthynas ag anifeiliaid sy'n cael ei lladd iddi hi, ac i ofyn am drosglwyddo pwerau oddi wrth Lywodraeth y DU pe bai adolygiad Llywodraeth Cymru yn canfod y byddai symudiad o'r fath yn fanteisiol. **(Tudalen 27)**

# 1. Rhagymadrodd a'r Cefndir

## Man Cychwyn yr Ymchwiliad

1. Yn ei gyfarfod ar 1 Hydref 2009, ystyriodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig bapur cwmpasu ar y dewisiadau o ran ymchwiliadau i'r dyfodol, a chytunodd i gynnal ymchwiliad i les anifeiliaid a hylendid cig mewn lladd-dai yng Nghymru.

2. Credai'r Pwyllgor y byddai cynnal ymchwiliad i les anifeiliaid a hylendid cig mewn lladd-dai yn amserol am nifer o resymau, yn cynnwys yr uno rhwng y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) a'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) a ddigwyddodd ar 1 Ebrill 2010 a chynigion yr FSA i symud tuag at adennill costau'n llawn oddi wrth y diwydiant. Roeddem hefyd yn credu, bedair blynedd ers y diwygiadau a gyflwynwyd yn 2006, ei bod yn adeg briodol i edrych ar effaith y diwygiadau hynny.

## Cylch Gorchwyl

3. Cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad ym mis Rhagfyr 2009. Amcanion yr ymchwiliad yw:

- Asesu pa mor effeithiol yw'r trefniadau presennol er sicrhau safonau lles anifeiliaid a hylendid cig mewn lladd-dai, a pha gamau pellach, os oes rhai, y gellid eu cymryd i sicrhau bod y ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei gweithredu'n gywir;
- Gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru a phob corff priodol arall.

4. Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnodd y Pwyllgor i'r rhai sydd â buddiant yn y maes ystyried:

- A yw'r strwythurau sydd yn eu lle ar hyn o bryd i sicrhau bod safonau lles anifeiliaid a hylendid cig yn cael eu gorfodi mewn lladd-dai yn ddigonol;
- Sut y dylai trefniadau goruchwylio milfeddygol gael eu rhoi ar waith mewn lladd-dai yng Nghymru;
- Effeithiolrwydd y berthynas rhwng y Gwasanaeth Hylendid Cig a'r diwydiant;

- A allai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd unrhyw gamau pellach i sicrhau bod y ddeddfwriaeth berthnasol ar hylendid cig a lles anifeiliaid yn cael ei gweithredu'n briodol mewn lladd-dai yng Nghymru.

5. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig yn ystod mis Rhagfyr 2009 a mis Ionawr 2010. Cyflwynwyd tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor mewn dau gyfarfod ym mis Ionawr 2010. Mae rhestr lawn o'r ymatebion a'r tystion i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

6. Fel bob amser, rydym yn ddiolchgar i'r sawl a gyfrannodd i'r ymchwiliad un ai drwy gyflwyno ymatebion ysgrifenedig neu drwy ddod i'r Pwyllgor i gyflwyno tystiolaeth lafar. Rydym yn ddiolchgar hefyd i Gary Hughes a'i gydweithwyr yn St Merryn's Meat Ltd ym Merthyr Tudful, a groesawodd y Pwyllgor ar ymweliad safle ac a ganiataodd inni weld drosom ein hunain sut mae'r rheoliadau lles anifeiliaid a hylendid cig yn cael eu gweithredu ar lawr gwlad.

7. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y prif faterion a godwyd gan y dystiolaeth ynghyd â chasgliadau'r Pwyllgor ar y materion hyn. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

## 2. Crynodeb o'r prif faterion

**Y Cefndir Deddfwriaethol**

8. Mae'r cyfundrefnau sy'n gorfodi lles anifeiliaid a hylendid cig mewn lladd-dai yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Yn benodol, rheolir lles anifeiliaid gan Gyfarwyddeb 93/119 yr UE ar amddiffyn anifeiliaid ar yr adeg y cânt eu lladd, tra bo Rheoliadau EC 852/2004, EC 853/2004 ac EC 854/2004 yr UE yn rheoli hylendid bwyd.

9. Daeth y tair rheoliad hylendid bwyd i rym ar 1 Ionawr 2006 ac fe'u cymhwysir yng Nghymru drwy Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

10. Caiff Cyfarwyddeb 93/119 ar les anifeiliaid ei gweithredu ym Mhrydain Fawr gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995 fel y'u diwygiwyd. Caiff ei disodli o 1 Ionawr 2013 gan Reoliad newydd EC 1099/2009 a fydd yn cyflwyno gofynion newydd ynglŷn ag amddiffyn anifeiliaid ar yr adeg y cânt eu lladd.

11. Rheolir tynnu a gwaredu Deunydd Risg Penodedig (SRM) o anifeiliaid ar ôl iddynt gael eu lladd gan Reoliad Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) EC 999/2001, a roddir ar waith yng Nghymru drwy Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008 fel y'u diwygiwyd.

12. Clywodd y Pwyllgor wahanol safbwyntiau ynglŷn ag effeithiolrwydd rheoliadau'r UE a'r angen i'w diwygio.

13. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) yn cydnabod bod y rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd wedi sicrhau lefel uchel o les anifeiliaid a hylendid cig yn y DU, ond credai eu bod hefyd wedi cael nifer o ganlyniadau niweidiol. Yn ôl yr FUW, mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys arallgyfeirio adnoddau milfeddygol, cau lladd-dai oherwydd y costau cydymffurfio, gwneud amseroedd cludo anifeiliaid yn hirach, a mewnforio mwy o gig o wledydd nad ydynt yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth yr UE.

14. Dadleuai Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA), fodd bynnag, ei bod yn rhy gynnar i lunio barn ynglŷn ag effeithiolrwydd rheoliadau nad oeddent ond wedi dod i rym yn 2006. Dywedodd Jason Aldiss o'r Gymdeithas wrth y Pwyllgor:

> "There is opportunity for further change, but I would argue that wholesale change at the moment would not allow the significant improvements that we have in the current regulations to be shown. We need more time before a more fundamental review is performed."[1]

**Rôl Milfeddygon Swyddogol**

***Archwiliadau cyn Lladd***

15. Cododd nifer o dystion gwestiynau ynglŷn â'r angen i archwiliadau cyn lladd gael eu cynnal ar anifeiliaid gan filfeddyg. Awgrymodd llawer o dystion, yn cynnwys Hybu Cig Cymru (HCC), FUW, a'r Gymdeithas Archwilwyr Cig (AMI), y gallai'r swyddogaeth hon gael ei chyflawni gan unigolion eraill sydd wedi cael hyfforddiant priodol, gan ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol ganolbwyntio ar ddyletswyddau eraill.

16. Yn ei thystiolaeth, dywedodd AMI:

> "…a return to the past system of having the MHI performing most of the routine tasks in plant, including ante-mortem inspection is the most cost efficient system of delivery with the Official Veterinarian taking the advisory/auditory role and being on hand/available at all times to the inspection teams in plant. In the past, MHIs were permitted to carry out ante-mortem inspection on juvenile animals and ensuring that adult animals and those showing abnormalities were detained for closer examination by the Official Veterinarian. This system seemed to work very satisfactorily to all involved and there should be no reason why this system would not work just as well again."[2]

17. Dywedodd Animal Aid y dylid annog milfeddygon swyddogol i dreulio cymaint â phosibl o amser yn yr ystafell stynio, lle creda y

---

[1] Cofnod y Trafodion, [para 39], 25 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
[2] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig RDC(3)-02-10 : Papur 4 : *Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig : Tystiolaeth gan Gymdeithas yr Archwilwyr Cig*, 25 Ionawr 2010, td.2

mae'r risg fwyaf i les anifeiliaid. Er y gallai rhyddhau milfeddygon o'r angen i gynnal archwiliadau cyn lladd ganiatáu iddynt, mewn egwyddor, dreulio rhagor o amser yn yr ystafell stynio, ni ddywedodd Animal Aid a fyddai'n cefnogi cam o'r fath ai peidio.

### *Annibyniaeth*

18. Cwestiynai sawl tyst, yn cynnwys Which?, Animal Aid, y Gymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol (AIMS) a HCC ai'r system bresennol, lle mae milfeddygon swyddogol wedi'u lleoli'n barhaol yn y lladd-dai lle maent yn cyflawni dyletswyddau gorfodi, yw'r un orau i sicrhau annibyniaeth y milfeddygon.

19. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Which?:

> "The relationship is different partly because, unlike other enforcement bodies, MHS staff have to be embedded in slaughterhouses and increasingly costs for enforcement activity will be transferred to food business operators. This therefore raises challenges in terms of ensuring that there is sufficient independent oversight of the process, while also maintaining the ability of the Meat Hygiene Inspectors (MHIs) and Official Veterinary Surgeons (OVSs) to take effective enforcement action against those people that they work with on a day to day basis when necessary."[3]

20. Cyfeiriodd Animal Aid at ganfyddiadau arolwg UNSAIN o'i aelodau a ganfu bod 87% o'r rhai a ymatebodd yn teimlo nad oedd y Gwasanaeth Hylendid Cig yn annibynnol ar y diwydiant, tra dywedodd AIMS wrth y Pwyllgor:

> "We feel that there is also something of a conflict of interest in a veterinarian who is permanently present in premises carrying out enforcement on those premises."[4]

### *Contractau*

21. Roedd anghytuno ymysg y tystion hefyd pa un ai'r system bresennol o drefnu contract gyda milfeddygon swyddogol drwy 'bartneriaid cyflenwi gwasanaethau', yn hytrach na'u bod yn cael eu

---

[3] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: *RDC(3)-AWMH 3 - Which?,* td. 3
[4] Cofnod y Trafodion, [para 74], 14 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

cyflogi'n uniongyrchol gan y Gwasanaeth Hylendid Cig, oedd yr ateb gorau.

22. Teimlai AIMS ac AMI fod y system gontractio yn arwain at gyflogi milfeddygon dibrofiad. Yn ei thystiolaeth dywedodd AIMS:

> "In the past when official veterinarian presence was part time, many official veterinarians were local veterinary practitioners. Such a system provided valuable income to rural practices and experienced clinicians to abattoirs. Now nearly all official veterinarians are provided to MHS by contractors, and are paid for by the hour not for the job done. This has resulted in a system favouring the least experienced veterinarians for the maximum number of hours."[5]

23. Dywedodd Kevin Lewis o AMI wrth y Pwyllgor:

> "The association has always advocated that all veterinarians should be employed by a competent authority. We stand by that view because we have seen many inexperienced veterinarians from overseas… coming here with limited English and no knife skills. We feel that some of these people are exploited: they may be on low wages and are expected to work all over the country at short notice and therefore may not have the same protection under employment law as someone employed by a competent authority."[6]

24. Nid oedd y BVA, fodd bynnag, yn credu bod problem gyffredinol o ddiffyg profiad ymysg milfeddygon ac mai'r mater allweddol oedd gallu a chymhwysedd.

25. Amddiffynnodd y Gwasanaeth Hylendid Cig y contract enghreifftiol, gan ddweud ei fod yn caniatáu i'r gwasanaeth ymateb yn gyflymach i newidiadau yn y diwydiant cig:

> "The situation in the UK is that there were not enough UK veterinarians who were able or interested in doing the type of work that we do. Being part of Europe, we advertised for interest from anyone who would be looking to work with us, in

---

[5] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: RDC(3)-02-10 : Papur 4 : Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig : Tystiolaeth gan Gymdeithas yr Archwilwyr Cig, 25 Ionawr 2010, td. 2

[6] Cofnod y Trafodion, [para 67], 25 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

partnership, as a contractor. Part of the reason for the contractor model is that we needed to bring in more resources fairly quickly, otherwise we would have been in contravention of European law, but there is also restructuring going on in the meat industry and our contractors are better able to deal with that than if they were employed directly as civil servants."[7]

26. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i'r defnydd mwyaf effeithiol gael ei wneud o filfeddygon swyddogol a bod pob milfeddyg swyddogol ac archwilydd hylendid cig yn gallu cyflawni'i ddyletswyddau rheoleiddio yn annibynnol ar y diwydiant gyda hyder y caiff gefnogaeth lawn gan reolwyr yr FSA.

27. Mae'r Pwyllgor yn bryderus ynglŷn â'r dystiolaeth a gafodd ynglŷn ag agweddau negyddol y model cyflogi milfeddygon ar gontract, a'r effaith y gallai hyn fod yn ei chael ar reoleiddio effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn ofni nad yw'r model hwn yn gymhelliant i'r FSA fuddsoddi yn addysg a hyfforddiant milfeddygon ac y gallai fod yn cyfrannu at ddiffyg arbenigedd perthnasol.

**Cred y Pwyllgor y dylid edrych eto ar y model cyflogi milfeddygon ar gontract, ac ystyried y posibilrwydd o newid i drefn lle caiff milfeddygon eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr FSA. Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi pwysau ar yr FSA i edrych eto ar y mater hwn drwy gyfrwng adolygiad annibynnol i ystyried a fyddai modelau amgen yn darparu'r arbenigedd a'r profiad sy'n angenrheidiol ymysg milfeddygon yn well.**

## Mesurau Rheoli TSE / SRM

28. Cododd sawl tyst fater mesurau rheoli deunydd risg penodedig (SRM), a sut mae'r rhain yn effeithio ar gost effeithiolrwydd y broses reoleiddio a gwerth cynnyrch cig.

29. Pwysleisiodd Which? bwysigrwydd y mesurau rheoli hyn o ran darparu rhywfaint o amddiffyniad i iechyd y cyhoedd:

> "It is, therefore, important that Specified Risk Material (SRM) controls are effectively enforced as they are the public health 'back-stop to protect the public should an infected animal enter

[7] Cofnod y Trafodion, [para 232], 25 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

> the food chain. The MHS and FSA should also be careful about the messages sent about the importance of compliance while they are calling for these measures to be reviewed so that business operators do not gain the impression that they can be less vigilant."[8]

30. Galwodd NFU Cymru ac AIMS am ddiwygio'r mesurau rheoli SRM, er mwyn eu gwneud yn fwy cymesur i'r risg a'u gwneud yn fwy cost effeithiol.

31. Roedd NFU Cymru yn croesawu codi'r oedran profi am BSE mewn gwartheg o 30 i 48 mis o fis Ionawr 2009 fel 'excellent example of the FSA and industry working together to bring a more proportionate regime without in any way impacting on public health'.[9] Roedd NFU Cymru yn awyddus i weld yr oedran profi i wartheg yn codi ymhellach i 60 mis ac i'r mesurau rheoli SRM mewn perthynas â defaid gael eu hadolygu'n llwyr. Dywedodd NFU Cymru wrth y Pwyllgor:

> "We believe that the FSA should now work closely with industry to prepare a strong case for UK Ministers to proactively seek a review of the current SRM controls across all species at an EU level, thereby reducing the amount of SRM inspections and controls at meat plants."[10]

32. Dywedodd NFU Cymru fod tynnu madruddyn y cefn o oen yn gallu'i ddibrisio ar y farchnad weithiau gymaint â 60% - 80% tra bod gwerth anifail cig eidion yn gallu gostwng £60 - £100.

33. Dywedodd AIMS fod y gost o brofi am TSE yn 'sylweddol' ac y gellid sicrhau rhywfaint o arbedion drwy ganiatáu i'r gweithredwyr gyflawni'r camau o dan y ddeddfwriaeth hon, gan nad yw'r Rheoliad yn pennu bod rhaid iddynt gael eu cyflawni gan y rheoleiddiwr.

34. Awgrymodd AIMS hefyd y gellid defnyddio dulliau eraill o dynnu madruddyn y cefn yn hytrach na hollti'r carcas – dulliau na fyddai'n dibrisio'r carcas i'r fath raddau. Un enghraifft a roddwyd oedd y dechneg sugno a ddefnyddir yn Ffrainc.

---

[8] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: *RDC(3)-AWMH 3 - Which?,* td. 5
[9] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: *RDC(3)-01-10 : Papur 1 : Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig: Tystiolaeth gan NFU Cymru*, 14 Ionawr 2010, para. 18
[10] Ibid. para. 19

35. Yn ei dystiolaeth, pwysleisiodd y Gwasanaeth Hylendid Cig fod y 'map ffyrdd TSE' a nodwyd gan yr UE yn caniatáu ar gyfer llacio'r mesurau rheoli dros amser, ond dim ond pan fydd tystiolaeth wyddonol yn dangos ei bod yn ddiogel gwneud hynny. O ran y rheol 30 mis i dynnu SRM, dywedodd Steve McGrath wrth y Pwyllgor:

> "That is something we will look at over time but it must be based on science and evidence, and not just on pressure from the industry. We need the assurance that when we make these changes to official controls, including BSE and TSE controls, we are doing it for the right reason, and it is supported by science and evidence."[11]

36. Cred y Pwyllgor fod rhaid i'r mesurau rheoli SRM / TSE fod yn gymesur ac wedi'u seilio ar dystiolaeth wyddonol gadarn. Rydym yn croesawu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud ar hyd y Map Ffyrdd TSE.

**Mae'r Pwyllgor yn annog yr FSA i ymchwilio i ffyrdd o sicrhau mwy o effeithlonrwydd yn y ffordd y caiff y mesurau rheoli SRM a TSE eu gorfodi. Dylai hyn gynnwys dysgu am sut y caiff y mesurau rheoli eu rhoi ar waith yn aelod wladwriaethau eraill yr UE, yn cynnwys dulliau amgen o dynnu madruddyn y cefn.**

### Polisi Da Byw Glân

37. Dywedodd Unsain ac AMI yn eu tystiolaeth fod nifer cynyddol o anifeiliaid budron yn cael eu cyflwyno i'w lladd, sy'n arwain at fwy o berygl o halogi carcasau.

38. Mae'r naill sefydliad a'r llall yn credu mai gwraidd y broblem hon yw'r newid a sefydlwyd gan y Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) yn 2006, a drosglwyddodd y cyfrifoldeb am sicrhau mai da byw glân yn unig sy'n cael eu cyflwyno i'w lladd oddi wrth swyddogion y Gwasanaeth Hylendid Cig i'r FBO.

39. Yn ei thystiolaeth dywedodd AMI:

> "The Clean Livestock Policy was viewed by many within the trade as possibly the greatest step forward in the production of clean carcasses and its demise has been much lamented. Should any government be brave enough to re-instate this

[11] Cofnod y Trafodion, [para 279], 25 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

> policy, it would be welcomed by all those physically involved in the production of meat."[12]

40. Tynnodd UNSAIN sylw'r Pwyllgor at bryderon a gafodd eu codi gan Swyddfa Fwyd a Milfeddygol Cyfarwyddiaeth Gyffredinol SANCO ynglŷn â derbyn anifeiliaid budron i gael eu lladd yn lladd-dai'r DU. Cyfeiriodd Which? hefyd at y pryderon a godwyd gan yr adroddiad hwn.

41. Dywedodd UNSAIN hefyd wrth y Pwyllgor mai halogi oedd y broblem fwyaf a wynebir gan ei aelodau sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Hylendid Cig, a bod archwilwyr hylendid cig yn aml yn gorfod trimio carcasau eu hunain:

> "…the key problem that our members tell us that they face on a daily basis is that of contamination. The FSA appears to us to have a view that many of the issues with meat inspection are to do with disease, but we find that the issues relate to contamination, which meat inspectors have to cut off carcases on a daily basis. That is a major problem, and they are not being presented with carcases of a high enough quality. The system is not working."[13]

42. Pwysleisiodd y Gwasanaeth Hylendid Cig mai cyfrifoldeb yr FBOs oedd asesu a yw anifail yn addas i gael ei ladd a bod gan ladd-dai mawr gyfleusterau i glipio unrhyw anifeiliaid sy'n rhy fudr cyn eu lladd. Fodd bynnag, ni allai lladd-dai llai fforddio cyfleusterau o'r fath. Hefyd, dywedodd y Gwasanaeth Hylendid Cig nad yw'r dewis i anfon anifeiliaid budron yn ôl i'r fferm yn agored i ladd-dai yng Nghymru, yn wahanol i'r Alban, felly mae rhaid delio â nhw rywffordd ar y safle.

**Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu effaith Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ar lendid yr anifeiliaid a gyflwynir i gael eu lladd. Os yw hynny'n angenrheidiol a phriodol, dylai'r rheoliadau gael eu diwygio i roi mwy o bwerau i filfeddygon swyddogol ac archwilwyr hylendid cig i atal anifeiliaid budron rhag cael eu cyflwyno i gael eu lladd.**

---

[12] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: *RDC(3)-02-10* : *Papur 4 : Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig : Tystiolaeth gan Gymdeithas yr Archwilwyr Cig*, 25 Ionawr 2010, td. 1

[13] Cofnod y Trafodion, [para 146], 25 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

**Swyddogion Lles Anifeiliaid**

43. Roedd yr RSPCA yn croesawu'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth a fydd yn ei gwneud yn orfodol i bob lladd-dy mawr benodi Swyddog Lles Anifeiliaid o 2013 ymlaen.

44. Fodd bynnag, mynegodd yr RSPCA bryder hefyd nad oedd rôl swyddogion lles anifeiliaid a milfeddygon swyddogol, y naill a'r llall, wedi cael ei phennu'n ddigon clir yn y Rheoliadau, a bod angen i'r rôl fonitro a gorfodi gael ei phwysleisio yn y ddeddfwriaeth. Roedd yr RSPCA yn awyddus hefyd i'r ddarpariaeth gael ei gweithredu yn lladd-dai Prydain cyn 2013.

45. Yn ei dystiolaeth, galwodd HCC am ymgynghori â'r diwydiant cig coch ynglŷn â'r ddeddfwriaeth i roi'r Rheoliad newydd ar waith yng Nghymru.

46. Er ei fod yn croesawu cyflwyno swyddogion lles anifeiliaid mewn lladd-dai mawr, mae'r Pwyllgor yn bryderus ynglŷn ag unrhyw newid a allai arwain at ddryswch newydd ynghylch rolau a chyfrifoldebau.

**Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddeddfwriaeth sy'n dod â'r Rheoliad i rym yng Nghymru yn dangos yn glir beth yw rôl swyddogion lles anifeiliaid a milfeddygon swyddogol, y naill a'r llall. Mae'r Pwyllgor yn galw hefyd ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori'n llawn â'r diwydiant cig coch ac eraill sydd â buddiant yn y maes cyn dod â'r ddeddfwriaeth gerbron.**

**Hunanreoleiddio**

47. Cododd llawer o dystion y cwestiwn a ddylid caniatáu mwy o hunanreoleiddio i'r diwydiant cig coch, ond nid oedd cytundeb yn y dystiolaeth ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen.

48. Roedd sawl corff yn argymell mwy o hunanreoleiddio fel ffordd o gynyddu effeithlonrwydd a gostwng costau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, ac o oresgyn y gwrthdaro cynhenid a welir yn rôl milfeddygon swyddogol fel y mae ar hyn o bryd. Roedd eraill, fodd bynnag, yn ofni y gallai hunanreoleiddio arwain at ostwng safonau ac effeithio ar hyder y cyhoedd mewn cynnyrch cig coch.

49. Dywedodd sawl tyst hefyd mai dyma'r trywydd sy'n cael ei ffafrio gan sawl un o aelod wladwriaethau'r UE, a bod yr opsiwn o adael i Weithredwyr Busnesau Bwyd (FBOs) gyflogi eu harchwilwyr eu hunain wedi cael ei gynnwys yn nrafft gwreiddiol y rheoliadau presennol cyn cael ei wrthod gan Senedd Ewrop.

50. Roedd NFU Cymru, AIMS, Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru (WLBP) a HCC i gyd yn argymell yn gryf y dylid symud i system lle mae FBOs yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am weithredu'r cyfundrefnau lles anifeiliaid a hylendid cig o ddydd i ddydd, gan ganiatáu i'r Gwasanaeth Hylendid Cig archwilio ac arolygu'r safleoedd y bernir eu bod yn peri'r risg fwyaf.

51. Dywedodd Dylan Morgan o NFU Cymru wrth y Pwyllgor:

> "…we think that the food business operator should be able to carry out a lot more of the day-to-day checks and controls. The MHS should have more of a policing role, checking that the work is being done. At the moment, the MHS is on the line too much, carrying out all the practical checks, rather than checking that the food business operators are carrying them out."[14]

52. Pwysleisiodd Don Thomas o WLBP fanteision effeithlonrwydd posibl mwy o hunanreoleiddio:

> "With self-regulation, and the industry taking on some of the burdens, I am convinced that they could do it more cost effectively than by having permanent checks. With self-regulation, it is vital to have an independent audit. The independent audit, based on risk assessment, can be targeted at the area where performance would suggest that the effort should go, rather than have blanket coverage of a statutory level, with people constantly there."[15]

53. Yn ei thystiolaeth, dywedodd AIMS y byddai dileu'r angen i filfeddygon swyddogol fod yn bresennol bob amser mewn lladd-dai yn lliniaru'r broblem milfeddygon dibrofiad drwy ganiatáu i'r Gwasanaeth

---

[14] Cofnod y Trafodion, [para 67], 14 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
[15] Cofnod y Trafodion, [para 168], 14 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

Hylendid Cig ganolbwyntio'i adnoddau ar dîm bach o filfeddygon arbenigol a fyddai'n gyfrifol am archwilio ac arolygu pob lladd-dy.

54. Yn y cyfamser, mynegodd Which?, AMI, UNISON a BVA i gyd amheuon ynglŷn ag unrhyw symudiad posibl tuag at hunanreoleiddio, gan ofni y byddai safonau'n gostwng ynghyd â hyder y cyhoedd pe na bai gan y Gwasanaeth Hylendid Cig bresenoldeb parhaol mewn lladd-dai.

55. Dywedodd Which? wrth y Pwyllgor:

> "…we are concerned about proposals to transfer responsibility away from independent inspectors to plant staff in red meat plants. It would need to be ensured that public health was not put at risk by only considering this type of approach in the very best plants and even then ensuring it was effectively monitored. It would need to be ensured that the conflict of interest created did not lead to meat inspection responsibilities being neglected if other functions within the slaughterhouse needed attention…. The inspection regime, in both red and white meat slaughterhouses, also need to ensure that while the priority is to prevent health risks, consumers can also be assured of the wholesomeness of the product."[16]

56. Er ei bod yn credu y gallai symudiad tuag at fwy o hunanreoleiddio fod yn bosibl mewn egwyddor, nid oedd y BVA yn credu bod hynny'n realistig yn y tymor byr i ganolig. Dywedodd Jason Aldiss o'r BVA wrth y Pwyllgor:

> "…yes, we believe that it is philosophically feasible, but we would argue that, just at the moment, it is not practical, although it is something that we should be working towards. At all times, however, it is important that there is an independent audit and inspection of each premises, working on behalf of Government to provide those consumer protective measures. It is not possible under the current regulations for a food business operation to run solely self-regulated, but we believe it is philosophically possible, in the future, for controls to be reduced in some premises on certain occasions. However, that time is not the present – that is some way in the future."[17]

---

[16] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: *RDC(3)-AWMH 3 - Which?,* td. 4
[17] Cofnod y Trafodion, [para 48], 25 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

57. Er i rai tystion eraill, yn cynnwys UNSAIN, honni bod yr FSA yn pwyso am ddiwygio Rheoliadau'r UE i ganiatáu mwy o hunanreoleiddio, ni wnaeth y Gwasanaeth Hylendid Bwyd yr achos yn ei dystiolaeth ei hun i'r Pwyllgor. Os rhywbeth, roedd y dystiolaeth lafar a roddwyd i'r Pwyllgor yn dadlau'r achos o blaid cadw presenoldeb parhaol mewn lladd-dai. Dywedodd Steve McGrath wrth y Pwyllgor:

> "The public expects us to be there, because our presence gives consumers confidence in the safety of meat."[18]

a

> "By not allowing self-inspection in the red meat industry we have to ensure we understand the reason for that. Any change in Europe will take many years to implement, and this is not something that I can see appearing on the horizon for a very long time. We must understand that the red meat industry in particular has had a number of experiences of E. coli and BSE. We must, therefore, give the public confidence that the controls that we put in place are fit for purpose and are delivering results according to the legal requirements of Europe."[19]

58. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo, nid yw'r Pwyllgor yn credu bod achos sy'n argyhoeddi wedi cael ei wneud o blaid symud i hunanreoleiddio yn y diwydiant cig coch ar hyn o bryd. Cred y Pwyllgor mai presenoldeb parhaol mewn lladd-dai a ffatrïoedd prosesu cig yw'r ffordd orau o ennyn hyder y cyhoedd mewn lles anifeiliaid a hylendid cig yn y tymor byr i ganolig.

59. Fodd bynnag, cred y Pwyllgor fod yr amrywiaeth eang o bryderon a godwyd gydag ef ynglŷn â'r sefyllfa ar hyn o bryd yn awgrymu y byddai'r diwydiant yn elwa o adolygiad i'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn cael ei gweithredu yng Nghymru, gyda'r adolygiad i gynnwys yr holl faterion sy'n cael eu codi yn yr adroddiad hwn.

**Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp adolygu, yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r diwydiant cig, i ystyried pa mor effeithiol y mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn cael ei gorfodi yng**

[18] Cofnod y Trafodion, [para 238], 25 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
[19] Cofnod y Trafodion, [para 243], 25 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gweedig

**Nghymru. Dylai'r adolygiad ystyried pa ddiwygiadau sy'n bosibl, o fewn fframwaith deddfwriaethol presennol yr UE, i sicrhau bod y safonau lles anifeiliaid a hylendid cig uchaf yn cael eu gwireddu yn y ffordd fwy effeithlon.**

## Cyllido a Chymhorthdal

60. Daeth pwy a ddylai dalu am y gwasanaethau rheoleiddio sy'n cael eu darparu gan y Gwasanaeth Hylendid Cig i'r amlwg fel cwestiwn cynhennus yn ystod yr ymchwiliad, oherwydd cynigion yr FSA i symud tuag at adennill y costau'n llawn oddi wrth y diwydiant a rhoi terfyn ar y cymhorthdal y mae'n ei ddarparu ar hyn o bryd.

61. Yn ei dystiolaeth, datganodd y Gwasanaeth Hylendid Cig fod cost darparu'r gwasanaeth yng Nghymru ar hyn o bryd yn £4m, gyda'r diwydiant yn talu £2m o'r swm hwnnw a'r gweddill yn dod oddi wrth y llywodraeth a'r FSA.

62. Cafodd y rhesymau wrth wraidd awydd yr FSA i symud tuag at adennill y costau'n llawn eu hegluro i'r Pwyllgor gan Steve McGrath:

> "On a point of principle, the Food Standards Agency is the regulator of the fresh meat industry, and we do not think it appropriate for a regulator to also have to subsidise that industry."[20]

63. Amlinellir yr effaith a gâi newid i adennill y costau'n llawn, pe bai'r costau'n cael eu trosglwyddo i'r defnyddiwr neu'r ffermwr / cynhyrchydd, yn y tablau isod, a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan y Gwasanaeth Hylendid Cig:

[20] Cofnod y Trafodion, [para 263], 25 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

**Tabl 1: Effaith adennill y costau'n llawn pe caent eu trosglwyddo'n llawn i ddefnyddwyr**

| Cynnyrch | Ceiniog yr eitem | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyfredol** | **Arfaethedig** | **Cynnydd** |
| Cyw Iâr cyfan (£4.00) | 0.6c | 1.4c | 0.8c |
| 500g. Briwgig heb lawer o fraster (£1.92) | 0.45c | 0.92c | 0.47c |
| Golwyth lwyn porc y kg (£6.15) | 1.3c | 2.7c | 1.4c |

**Tabl 2: Effaith adennill y costau'n llawn pe caent eu trosglwyddo'n llawn i ffermwyr / cynhyrchwyr**

| Anifail | Yr eitem[21] | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwerth** | **Cyfredol** | **Arfaethedig** | **Cynnydd** |
| Cyw iâr | £1.51 | 0.6c | 1.4c | 0.8c |
| Eidion | £895 | £4.38 | £8.92 | £4.54 |
| Dafad | £74 | £0.44 | £0.89 | £0.45 |
| Mochyn | £100 | £0.63 | £1.27 | £0.65 |

64. Er bod gofyniad o dan ddeddfwriaeth yr UE i godi tâl ar weithredwyr am roi mesurau rheoli swyddogol ar waith, clywodd y Pwyllgor fod y taliadau'n amrywio rhwng aelod wladwriaethau ac y gall felly ystumio'r farchnad i raddau. Mae ffigurau a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan y Gwasanaeth Hylendid Cig yn dangos bod taliadau cyfredol y DU ymysg yr uchaf yn Ewrop; byddai newid i drefn lle câi'r costau eu hadennill yn llawn yn gwneud y taliadau a gâi eu codi ar FBOs yn y DU yr uchaf yn Ewrop o bell ffordd.

65. Roedd pryder cyffredinol ymysg y rhai a gyflwynodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ynglŷn ag effaith bosibl newid i drefn o adennill costau'n llawn ar y diwydiant.

[21] Amcangyfrifir y taliadau fesul eitem drwy gyfrifo'r gost a'r tâl fesul anifail ar gyfartaledd, wedi'u seilio ar niferoedd ac oriau 2008/09 a chyfraddau taliadau 2009/10

66. Dadleuai rhai tystion, fel AMI a'r NFU, gan mai gwasanaeth a gâi ei ddarparu i'r defnyddiwr i'w amddiffyn oedd y mesurau rheoli mewn gwirionedd, nad yw ond yn briodol mai'r llywodraeth ddylai dalu amdano. Yn ei thystiolaeth, dywedodd AMI:

> "It is our view that, as this is first and foremost a service to the consumer, the service should be provided for and funded centrally."[22]

67. Dywedodd yr NFU wrth y Pwyllgor:

> "Protection of consumer health against any risks which may arise from food should not in our view, be dependent on changed economic circumstances or the ability of an industry to pay."[23]

68. Y pryder mwyaf o bell ffordd a fynegwyd gan dystion oedd yr effaith negyddol a gâi adennill costau'n llawn pe na bai'r taliadau'n cael eu trosglwyddo i'r defnyddiwr a bod rhaid i'r ffermwr neu'r lladd-dy eu hysgwyddo – y senario a gâi ei ystyried yn fwyaf tebygol gan y rhan fwyaf o dystion.

69. Mynegodd NFU Cymru, HCC, AMI, AIMS a WLBP i gyd bryder y byddai'r costau ychwanegol yn gorfodi llawer o ladd-dai bach a chanolig eu maint Cymru allan o fusnes.

70. Tynnodd NFU Cymru sylw at y ffaith fod 34 o ladd-dai yng Nghymru eisoes wedi cau er 1990, a chredai y byddai'r diwygiadau arfaethedig o ran codi tâl yn dwysáu'r duedd hon.

71. Dywedodd Peter Hewson o AIMS wrth y Pwyllgor:

> "If total cost recovery was placed on the industry and there was no way of subsidising the smaller slaughterhouses, they would not be able to afford it."[24]

---

[22] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: *RDC(3)-02-10* : *Papur 4 : Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig : Tystiolaeth gan Gymdeithas yr Archwilwyr Cig*, 25 Ionawr 2010, td.3
[23] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: *RDC(3)-01-10 : Papur 1 : Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig : Tystiolaeth gan NFU Cymru*, 14 Ionawr 2010, para. 6
[24] Cofnod y Trafodion, [para 86], 14 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

72. Awgrymodd Kevin Lewis o AMI mai dim ond y lladd-dai mwyaf un a fyddai'n goroesi:

> "If the FSA went along the lines of full-cost recovery, you will probably have two or three abattoirs left in Wales because the costs are astronomical. It is potentially £59,000 a year for a meat inspector and £70,000 or more for a veterinarian. What small business can afford that?"[25]

73. Tynnodd Ed Bailey o NFU Cymru sylw at y ffaith y byddai cau lladd-dai bach yng nghefn gwlad Cymru yn golygu cynnydd mewn 'milltiroedd bwyd' gan y byddai anifeiliaid yn cael eu cludo bellteroedd maith i gael eu lladd a'u prosesu, a hynny yn ei dro yn effeithio ar gynhyrchwyr lleol:

> "The smaller slaughterhouses tend to cater for local butchers and niche markets, which are very important to the Welsh meat industry. Consequently, given that animals have to travel maybe 100 to 150 miles to be slaughtered – and it is easily that in some cases, if not more – only to be brought back to local butchers' shops, it seems to detract from our aim in Wales of offering a green product with low food miles that can be sold locally."[26]

74. Dywedodd y Gwasanaeth Hylendid Cig wrth y Pwyllgor mai un o'r opsiynau a oedd yn cael ei ystyried wrth symud ymlaen oedd y dylai'r cymhorthdal gael ei seilio a'i weinyddu'n rhanbarthol yn unol â blaenoriaethau'r gweinyddiaethau datganoledig. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r llywodraethau datganoledig, dywedwyd wrth y Pwyllgor.

75. Dywedodd HCC ac NFU Cymru wrth y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ymyrryd i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i ladd-dai Cymru pe bai'r FSA yn cyflwyno trefn adennill costau'n llawn. Dywedodd NFU Cymru:

> "NFU Cymru believe that if the FSA is intent on passing the full cost of meat controls back to industry then the relevant Welsh Ministers should investigate whether the Welsh Assembly

[25] Cofnod y Trafodion, [para 89], 25 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
[26] Cofnod y Trafodion, [para 20], 14 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

> Government can intervene to ensure that the abattoir sector both small and large in Wales can thrive."[27]

76. Roedd Gwyn Howells o HCC yn argymell y dylai adnoddau gael eu targedu at gyflawni amcanion penodol yn ymwneud â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a milltiroedd bwyd isel:

> "…with any costs or interventions, we need to understand that we want to achieve in terms of a viable processing sector, and therefore, channel the interventions appropriately so that we have a sustainable industry and abattoirs located where the stock is bred and produced."[28]

77. Mae'r Pwyllgor yn gwrthwynebu unrhyw newid i'r gyfundrefn codi tâl a fyddai'n peryglu dyfodol lladd-dai bach a chanolig eu maint yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn wedi argyhoeddi'r Pwyllgor y byddai'r symud arfaethedig i adennill costau'n llawn yn fygythiad o'r fath.

78. Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol o ran colli swyddi, mae'r Pwyllgor yn bryderus ynglŷn â'r effaith a gâi cau lladd-dai ar filltiroedd bwyd ac ar gynhyrchu cynnyrch lleol o Gymru ar gyfer marchnadoedd arbenigol.

**Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pob cyfrwng sydd ar gael iddi i atal yr FSA rhag rhoi trefn adennill costau'n llawn ar waith a dileu ei chymhorthdal i'r diwydiant nes bydd mecanwaith amgen i roi cymhorthdal tuag at gost mesurau rheoli wedi cael ei sefydlu.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu mecanwaith i ddarparu cymhorthdal i'r diwydiant a fydd yn diogelu dyfodol lladd-dai bach Cymru, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu cymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint sy'n gwasanaethu marchnadoedd lleol.**

---

[27] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: *RDC(3)-01-10 : Papur 1 : Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig : Tystiolaeth gan NFU Cymru*, 14 Ionawr 2010, para. 15
[28] Cofnod y Trafodion, [para 216], 14 Ionawr 2010, yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

**Datganoli**

79. Galwodd NFU Cymru am roi ystyriaeth i fanteision posibl datganoli'r cyfrifoldeb am orfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid a hylendid cig i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

> "NFU Cymru believe that WAG should investigate whether there are economies that could be made if responsibility for the implementation and enforcement of meat hygiene and animal welfare legislation in slaughterhouses in Wales was to be transferred to the WAG / NAW rather than be dealt with on a GB level through the FSA. We believe that a review should be instigated to investigate the pros and cons of such a move. There does appear to be an anomaly where the WAG has devolved responsibility for agriculture… It is in some ways odd that NAW / WAG to not have greater responsibility and autonomy for the legislation and enforcement of meat hygiene and animal welfare at slaughterhouses in Wales."[29]

80. Yn arbennig, credai NFU Cymru y byddai mwy o ddatganoli yn y maes hwn yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno mecanweithiau gweithredu a chynlluniau codi tâl gwahanol.

81. Roedd WLBP a HCC yn cefnogi'r syniad o adolygiad fel yr un a awgrymwyd gan NFU Cymru.

82. Roedd BVA, fodd bynnag, yn amheus o ddatganoli pwerau dros les anifeiliaid a hylendid cig i Gymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, gan ofni y gallai hynny arwain at fwy o gostau ac aneffeithlonrwydd. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "… if the devolved administrations adopt different approaches to the enforcement of current EU Legislation; this will inevitably lead to inconsistencies in enforcement and cross border issues. Future changes to be considered must be compatible with policies adopted in England."[30]

---

[29] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: *RDC(3)-01-10 : Papur 1 : Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig : Tystiolaeth gan NFU Cymru*, 14 Ionawr 2010, para. 27

[30] Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: *RDC(3)-02-10 : Papur 1 Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig : Tystiolaeth gan y Gymdeithas Iechyd Cyhoeddus Milfeddygol*, 25 Ionawr 2010, td. 3

83. Mae'r Pwyllgor yn credu y gallai diwydiant cig coch Cymru elwa drwy i'r cyfrifoldeb am orfodi rheoliadau lles anifeiliaid pan fyddant yn cael eu lladd a hylendid cig gael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru.

**Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatganoli'r cyfrifoldeb am orfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid a hylendid cig mewn perthynas ag anifeiliaid sy'n cael ei lladd iddi hi, ac i ofyn am drosglwyddo pwerau oddi wrth Lywodraeth y DU pe bai adolygiad Llywodraeth Cymru yn canfod y byddai symudiad o'r fath yn fanteisiol.**

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-rd-home.htm

*14 Ionawr 2010*

| | |
|---|---|
| Ed Bailey | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymru |
| Dylan Morgan | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymru |
| Peter Hewson | Cymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol |
| Don Thomas | Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru |
| Sion Aron Jones | Hybu Cig Cymru |
| Gwyn Howels | Hybu Cig Cymru |
| Julia Wrathall | Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid |

*25 Ionawr 2010*

| | |
|---|---|
| Jason Aldiss | Cymdeithas Milfeddygon Prydain |
| Rhian Parry | Cymdeithas yr Archwilwyr Cig |
| Ron Spellman | UNSAIN |
| Simon Watson | UNSAIN |
| Graham Cross | UNSAIN |
| Steve McGrath | Gwasanaeth Hylendid Cig |
| Collin Willson | Gwasanaeth Hylendid Cig |
| Steve Wearne | Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-rd-home/inquiries-3/rdc3_awmh-home-2/rdc_3_awmh_responses.htm

| *Enw* | *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|---|
| Ed Bailey a Dylan Morgan | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymru | RDC(3)-01-10: Papur 1 |
| Peter Hewson | Cymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol | RDC(3)-01-10: Papur 2 |
| Don Thomas | Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru | RDC(3)-01-10: Papur 3 |
| Sion Aron a Gwyn Howells | Hybu Cig Cymru | RDC(3)-01-10: Papur 4 |
| Julia Wrathall | RSPCA | RDC(3)-01-10: Papur 5 |
| Jason Aldiss | Cymdeithas Milfeddygon Prydain | RDC(3)-02-10: Papur 1 |
| Ron Spellman, Simon Watson a Graham Cross | UNSAIN | RDC(3)-02-10: Papur 2, Papur 2 Atodiad A, RDC(3)-06-10 Papur 10, RDC(3)-06-10 Papur 11, RDC(3)-06-10 Papur 12, RDC(3)-06-10 Papur 13 |
| Steve Wearne, Steve McGrath a Collin Willson | Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru | RDC(3)-02-10: Papur 3 |
| Rhian Parry | Cymdeithas yr Archwilwyr Cig | RDC(3)-02-10: Papur 4 |
| | Randall Parker Foods | RDC(3)-AWMH 1 |
| | Animal Aid | RDC(3)-AWMH 2 |

| | |
|---|---|
| Which? | RDC(3)-AWMH 3 |
| Y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm | RDC(3)-AWMH 4 |
| NFU Cymru | RDC(3)-AWMH 5 |
| Asiantaeth Safonau Bwyd | RDC(3)-AWMH 6 |
| Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru | RDC(3)-AWMH 7 |
| Hybu Cig Cymru | RDC(3)-AWMH 8 |
| RSPCA | RDC(3)-AWMH 9 |
| Cymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol | RDC(3)-AWMH 10 |
| Undeb Amaethwyr Cymru | RDC(3)-AWMH 11 |
| Cymdeithas yr Archwilwyr Cig | RDC(3)-AWMH 12 |
| UNSAIN | RDC(3)-AWMH 13 |